Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Recriwtio ar gyfer Lleoliadau Ymchwil mewn Ymarfer yn Llywodraeth Cymru: defnyddio a storio data personol ymgeiswyr

## Cyffredinol

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn amlinellu sut mae'r data a gesglir gan Lywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio a'i storio gan swyddogion Llywodraeth Cymru yn y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi er mwyn **hysbysebu a recriwtio** mewn modd effeithiol ar gyfer lleoliadau Ymchwil mewn Ymarfer (y cyfeirir atynt yma wedi hyn fel 'lleoliadau') mewn cydweithrediad ag Ysgol Graddedigion Gwyddorau Cymdeithasol Cymru y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol.

**Sylwer, os byddwch yn llwyddiannus yn eich cais, bydd eich data yn cael ei storio gan Lywodraeth Cymru yn unol â'r Hysbysiad preifatrwydd gwasanaeth swyddi a phenodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru.**

## Yr wybodaeth rydym ni'n gofyn amdani a pham

Mae Llywodraeth Cymru yn casglu ystod o ddata personol am ymgeiswyr fel rhan o'r broses recriwtio a ddefnyddir i gysylltu â darpar fyfyrwyr ar leoliadau ac i sefydlu cytundebau rhwng Llywodraeth Cymru, y myfyriwr PhD a'u Sefydliad Addysg Bellach ynghylch telerau eu lleoliad

Llywodraeth Cymru yw rheolydd y data. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gasglu a storio data personol ymgeiswyr mewn modd sy'n cydymffurfio â GDPR y DU.

## Eich data

Diffinnir data personol o dan Reoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU) fel unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â pherson adnabyddadwy y gellir ei adnabod, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, drwy gyfeirio at ffactor adnabod.

Fel ymgeisydd am leoliad, byddwn yn gofyn am y data personol canlynol gennych;

- Enw
- Cyfeiriad

- Cyfeiriad e-bost
- Rhif ffôn

Defnyddir yr wybodaeth hon gan Lywodraeth Cymru i gysylltu â'r ymgeisydd ar ôl iddo gyflwyno ei ffurflen gais ac ystyried a yw'r ymgeisydd yn addas ar gyfer y lleoliad.

Caiff ffurflenni cais eu cadw am 12 mis ar ôl dyddiad cau'r hysbyseb. Os ydych chi'n bodloni'r safon ofynnol ond nad ydym yn gallu cynnig y rôl yr ydych wedi gwneud cais amdani i chi, bydd eich manylion yn cael eu hychwanegu at restr wrth gefn a gedwir gan y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi er mwyn eich paru â lleoliad priodol yn nes ymlaen. Yn ystod y cyfnod hwnnw, gellir cysylltu ag ymgeiswyr i'w paru â lleoliad addas. Mae gan ymgeiswyr yr hawl i dynnu eu gwybodaeth yn ôl at y diben hwn a gallant wneud hynny drwy gysylltu â headofgsrworkforceplanningprofessionalstandards@llyw.cymru .

Mae data personol yn cael ei gadw mewn ffeil ddiogel gyda mynediad wedi'i gyfyngu i swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am weinyddu'r cynllun, y rheolwr llinell sy'n recriwtio a'r Pennaeth Cangen ar gyfer y tîm sy'n cynnal y lleoliad.

Os byddwch yn gofyn cwestiwn neu’n gwneud cwyn ac yn darparu data personol i gael ymateb, bydd yr ymchwilydd yn rhoi eich cwestiwn neu eich cwyn i’r swyddog perthnasol yn unig ac wedyn yn ei ddileu o'n cofnodion.

## Y sail gyfreithiol dros brosesu eich data

Fel rheolydd data, bydd Llywodraeth Cymru yn prosesu'r data personol a ddarperir gennych fel rhan o'r broses recriwtio yn unol â'n tasg gyhoeddus a'r awdurdod swyddogol a roddwyd i ni.

Byddwn yn prosesu’r data er mwyn:

- asesu eich addasrwydd ar gyfer rôl gyda Llywodraeth Cymru
- cynnal camau gwirio cyn cyflogi
- gwneud trefniadau angenrheidiol i chi ymuno â'r sefydliad
- monitro effeithiolrwydd prosesau recriwtio
- bodloni ein gofynion cyfreithiol.

## Rhannu eich data:-

Ar ôl i chi wneud cais, gellir rhannu eich gwybodaeth gyda:

- staff sydd wedi'u cymeradwyo ac sy'n sy'n rheoli swyddi gwag gan gynnwys recriwtwyr ac aelodau'r panel cyfweld
- staff sydd wedi'u cymeradwyo ac sy'n ymwneud ag adroddiadau dienw ar effeithiolrwydd ymgyrchoedd recriwtio neu lefelau gweithgareddau a dadansoddiadau ystadegol o dueddiadau, data dienw cyfle cyfartal a gwybodaeth reoli arall
- yr adran recriwtio neu'r proffesiwn
- ein darparwyr gwasanaeth cyfieithu os ydych wedi gwneud cais yn Gymraeg.

## Cadw data

Mae'r data personol a ddarperir i Lywodraeth Cymru yn cael ei gadw ar weinyddion diogel, ac mae ffolder wedi'i chreu ar gyfer y cynllun lleoli sy'n cyfyngu mynediad i swyddogion sy'n gweinyddu'r cynllun, y rheolwyr llinell sy'n recriwtio a'r Pennaeth Cangen ar gyfer y tîm sy'n cynnal y lleoliad. Bydd eich manylion cyswllt, ac unrhyw ddata personol y byddwch yn dewis eu rhoi inni, yn cael eu cadw yn y ffolder gyfyngedig hon.

Bydd gwybodaeth bersonol a gynhwysir yn y ffurflen gais yn cael ei chadw am 12 mis ar ôl dyddiad cau perthnasol y lleoliad y mae'r ymgeisydd wedi gwneud cais amdano.

**Os byddwch yn llwyddiannus yn eich cais, bydd eich data yn cael ei storio gan Lywodraeth Cymru yn unol â hysbysiad preifatrwydd gwasanaeth swyddi a phenodiadau cyhoeddus Llywodraeth Cymru.**

## Eich hawliau

O dan GDPR y DU mae gennych yr hawliau canlynol mewn perthynas â'r wybodaeth bersonol a ddarperir gennych fel rhan o'r prosiect ymchwil hwn. Yn benodol, mae gennych hawl i ofyn am y canlynol:

- i weld y data personol rydym yn ei brosesu amdanoch

- i ofyn inni gywiro gwallau yn y data hynny
- Gwrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu’r data (o dan amgylchiadau penodol);
- i fynnu bod eich data'n cael ei 'ddileu' (mewn rhai amgylchiadau)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO)

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth: Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Swydd Gaer, SK9 5AF. Ffôn: 0303 123 1113. Gwefan: www.ico.gov.uk

## Cwynion

Os ydych o'r farn bod eich data personol wedi'i gamddefnyddio neu ei gamdrin, gallwch wneud cwyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n rheoleiddiwr annibynnol. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF
0303 123 1113
casework@ico.org.uk

Nid yw unrhyw gŵyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth yn effeithio ar eich hawl i geisio iawndal drwy'r llysoedd.

## Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am sut y bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio eich data, neu os hoffech arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, cysylltwch â:

Enw: Becca Sarasin / Catrin Awoyemi
Cyfeiriad e-bost: prifswyddogymchwilgymdeithasol@llyw.cymru

Gweler y manylion ar gyfer cysylltu â Swyddog Diogelu Data Llywodraeth Cymru isod:

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ, E-bost: DataProtectionOfficer@llyw.cymru.